# LC1151

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Penodi Ymgynghorwyr) (Cymru) (Diwygio) 2005

Diben y Rheoliadau yma yw gwneud nifer o ddiwygiadau cymharol fân i destun y National Health Service (Appointment of Consultants) (Wales) Regulations 1996. Yn uniaith Saesneg y cafodd y rheiny eu gwneud, ac felly uniaith Saesneg hefyd yw'r testun sy'n cael ei fewnosod gan y Rheoliadau presennol.

### Rheol Sefydlog 11.7

Does dim pwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

### Sylwadau

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor hefyd wedi nodi un pwynt ynglyn â fformadu a all gael ei gywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

### Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**18 Hydref 2005**